# Pecyn Hunanasesu ar Denant Graffu - Atodiad

(diweddarwyd Medi 2019)



## 20 peth i'w ystyried i sicrhau bod eich dull o denant graffu yn ffres a pherthnasol

**Mae'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i esblygu mewn ymateb i bolisïau, canllawiau ac arferion da newydd.**

Er mwyn cefnogi ein haelodau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y syniadau a'r arferion diweddaraf, rydym wedi adolygu a diweddaru ein adnodd atodol i ategu ein dogfen lwyddiannus 'Archwiliad Iechyd Craffu - Hunanasesiad'.

Mae'n adnodd ymarferol, hawdd ei ddefnyddio, a gynlluniwyd i helpu i gadw eich dull o Denant Graffu yn gyfredol ac yn berthnasol.

1. Mae gan swyddogaeth gyffredinol Tenant Graffu bwrpas clir a gall ddangos ei fod yn gweithio go iawn ac yn gwneud gwahaniaeth.

2. Mae gan bob adolygiad / gweithgaredd craffu bwrpas clir wedi ei nodi ar y dechrau ac mae wedi'i gynllunio i wneud gwahaniaeth.

3. Mae swyddogaethau a gweithgareddau Tenant Graffu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i wirio eu bod yn gallu dangos gwerth am arian. Asesir craffu yn erbyn yr '4 E'

   1) Effeithiol - a yw craffu yn cyflawni ei bwrpas ac yn gwneud gwahaniaeth?
   2) Effeithlon - a ellir ei wneud mewn ffordd wahanol ac yn dal i fod yn effeithiol?
   3) Economaidd – beth yw'r /oedd y costau ynghlwm â chraffu?
   4) Ecwiti – Mae'r grŵp Tenant Graffu yn gynhwysol ac yn agored i bawb ac mae adolygiadau Tenant Graffu wedi gwella gwasanaethau i bawb.

4. Mae paneli Tenant Graffu yn adolygu eu perfformiad ar gyfer gwersi a ddysgwyd / arfer da ac ati yn dilyn pob adolygiad / prosiect craffu

5. Mae Tenant Graffu yn gweithredu o fewn sefydliad lle mae diwylliant, dan arweiniad uwch staff / bwrdd, sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad Tenantiaid.

6. Mae'r landlord yn gwrando ar y safbwyntiau a'r argymhellion a nodwyd trwy graffu ac yn gweithredu arnynt neu'n egluro pam na allant wneud hynny.

7. Yn ystod adolygiadau / gweithgareddau craffu, mae grwpiau Tenant Graffu yn gwrando ar farn y corff ehangach o denantiaid ac yn gweithredu arnynt neu'n egluro pam na allant wneud hynny.

8. Mae grwpiau craffu yn rhoi adborth i denantiaid ynghylch sut y defnyddiwyd barn tenantiaid, a gasglwyd yn ystod adolygiadau craffu, a sut y maent wedi gwneud gwahaniaeth.

9. Mae grwpiau craffu yn ymwybodol o risgiau sefydliadol a sector-eang sy'n wynebu eu landlord, ac yn deall sut y gallai'r rhain effeithio ar ddarparu gwasanaethau.

10. Mae adolygiad o Denant Graffu wedi archwilio sut y gall craffu ddarparu trefniant priodol i denantiaid ymgysylltu ag iechyd a diogelwch landlordiaid a'u dylanwadu arnynt.

11. Mae grwpiau craffu yn ymwybodol o argaeledd a defnydd Adnodd Cymharu Cymdeithasau Tai a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru a sut y gallai'r wybodaeth hon eu cynorthwyo.

12. Mae gweithdrefnau a pholisïau craffu yn cydymffurfio â'r holl ofynion Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) cyfredol.

13. Mae grwpiau craffu yn agored ac yn dryloyw i gorff ehangach tenantiaid ynghylch; sut maen nhw'n gweithio, y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud a'u gwerth am arian.

14 Mae grwpiau craffu yn cadw golwg ar y moddau a'r dulliau newydd o gyflwyno craffu ac yn ystyried a allai unrhyw syniadau newydd fod o fudd iddynt.

15 Mae gan grwpiau craffu ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyffredinol o ddata Proffil Tenantiaid diweddar eu landlord, a sut y gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i graffu a yw gwasanaethau a strategaethau landlordiaid yn deg ac yn gynhwysol.

16 Mae craffu yn defnyddio'r wybodaeth a'r data diweddaraf am yr hyn y mae'r corff ehangach o denantiaid yn ei gredu am y gwasanaethau. Gallai'r rhain gynnwys:

- Canlyniadau arolwg
- Canlyniadau Archwiliad/Siopa Dirgel
- Canfyddiadau grwpiau ffocws
- Canfyddiadau Cwynion a Chanmoliaeth
- Adborth a sylwadau cyfryngau cymdeithasol

17 Mae gan grwpiau craffu ddealltwriaeth gyffredinol o strategaeth 'Gwerth am Arian' eu landlord a sut mae hyn yn cysylltu â'u gwaith craffu.

18 Mae craffu yn gwneud defnydd o dechnoleg ddigidol a newydd i hybu a chefnogi gweithgareddau craffu ac i roi adborth e.e.:

- Fideos i egluro beth yw craffu a beth mae'n ei wneud
- Defnyddio straeon digidol i recriwtio tenantiaid
- Gwneud ymchwil ar-lein
- Hyrwyddo trafodaethau ar-lein i gasglu barn y boblogaeth ehangach o denantiaid
- Rhannu canfyddiadau craffu trwy fideo a chyfryngau cymdeithasol

19 Mae argymhellion craffu sy'n cael eu mabwysiadu yn gysylltiedig ag ymagwedd sefydliadau tuag at reoli perfformiad fel eu bod yn cael eu monitro a'u hadrodd yn ôl.

20 Mae canlyniadau tenant graffu yn dangos sut mae tenantiaid yn cymryd rhan effeithiol mewn gwneud penderfyniadau strategol a llunio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol i denantiaid a'r sefydliad.

**Os hoffech ragor o wybodaeth am gynnwys y ddogfen hon neu am Tenant Graffu yn gyffredinol, peidiwch betruso i gysylltu â ni ar:**
**02920 237303 / 01492 593046**
**neu enquiries@tpas.cymru**